Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

Terfynu Beichiogrwydd Meddygol Hwyr (MTOP)

o 12fed wythnos i 23ain wythnos +6 Beichiogrwydd

**Taflen Wybodaeth i Gleifion**

**Cyflwyniad**

Rydym yn deall nad yw penderfynu terfynu beichiogrwydd oherwydd annormaledd yn y ffetws yn benderfyniad hawdd ac mae'n gyfnod heriol i chi ac i'ch teulu. Hyderir y bydd y daflen hon yn cynnig rhywfaint o esboniadau a gwybodaeth ynghylch y broses o derfynu beichiogrwydd yn feddygol yn ein hysbyty ac yn ateb rhywfaint o gwestiynau am ôl-ofal. Rydym yn eich annog i neilltuo amser i ystyried pethau ac mae aelodau o'r staff ar gael i'ch helpu â'r broses trwy gydol eich taith.
Mae ARC (Antenatal Results and Choices: www.arc-uk.org.) yn cynnig gwybodaeth a chymorth i rieni sy'n gwneud penderfyniadau cyn, yn ystod ac ar ôl sgrinio a phrofion cynenedigol.

**Sut bydd terfynu beichiogrwydd yn feddygol yn digwydd?**

Mae'n broses dau gam.

Cyn y driniaeth, byddwch yn cael gwybod am y risgiau cysylltiedig, y camau sy'n rhan o'r broses, a beth i'w ddisgwyl. Gofynnir i chi hefyd roi eich caniatâd ysgrifenedig ar ôl esbonio'r broses yn eglur.

Os cewch eich gweld yn y Clinig Meddygaeth y Ffetws, bydd yr holl waith papur gan gynnwys llofnodi ffurflen ganiatâd yn digwydd yn ystod eich ymgynghoriad. Gwneir rhan gyntaf y driniaeth naill ai yn y clinig neu yn Ysbyty'r Faenor, yn dibynnu ar argaeledd gwelyau ar gyfer ail gam y driniaeth ac yn dibynnu ar gam eich beichiogrwydd:

- Os ydych wedi bod yn feichiog am lai nag 20 wythnos, byddwch chi'n cael eich derbyn i'r ward Gynaecoleg/A3 ar lefel 3.
- Os ydych wedi bod yn feichiog am fwy nag 20 wythnos, byddwch chi'n cael eich derbyn i'r ward Obstetreg/C3 ar lefel 3.

Yna, pennir amser a dyddiad i chi gael eich derbyn ar gyfer yr ail ran. Byddwch yn cael ystafell en-suite, ac mae croeso i'ch partner/perthynas aros gyda chi drwy gydol y broses yn yr ysbyty.

Ni allwch gael y feddyginiaeth os oes gennych asthma difrifol heb ei reoli, porffyria etifeddol neu fethiant cronig yr arennau oherwydd gwrtharwyddion yn yr achosion

hyn. Os oes gennych anhwylderau gwaedu, os ydych yn cymryd steroidau hirdymor, yn cymryd gwrthgeulyddion, a/neu'n anemig, bydd rhagor o drafodaethau'n digwydd â'r Arbenigwyr perthnasol ynghylch rhoi'r meddyginiaethau hyn i chi a gweithredir rhagofalon ar ôl trafod hynny. Bydd angen i chi hefyd hysbysu'r Meddyg os ydych chi erioed wedi cael ceuladau yn eich coesau (DVT) neu'ch ysgyfaint (PE) ac os ydych wedi profi unrhyw alergeddau blaenorol i'r feddyginiaeth.

**Profion angenrheidiol i'w gwneud cyn y driniaeth**

Er mwyn eich trin yn ddiogel, gwneir rhywfaint o brofion gwaed gorfodol gan gynnwys - prawf Cyfrif Gwaed Llawn a phrawf Grwpio ac Arbed sy'n cynnwys eich statws Rhesws, h.y., a yw'r math o waed sydd gennych yn bositif neu'n negatif. Os yw'r math o waed sydd gennych yn negatif, bydd angen pigiad Gwrth-D arnoch chi o fewn 72 awr ar ôl terfynu'r beichiogrwydd i atal cymhlethdodau yn ystod unrhyw feichiogrwydd dilynol.

**Y rhan gyntaf**

Mae'n broses dwy ran - rhoddir y dabled gyntaf (Mifepristone), a lyncir, i atal yr hormonau beichiogrwydd (progesteron) yn eich corff. Bydd yr ail dabled (Misoprostol), a gymerir 36-48 awr yn ddiweddarach yn y fagina/o dan y tafod, yn achosi'r cyfangiadau i esgor ar y baban a'r brych.

Gall Mifepristone wneud i chi deimlo'n sâl ar brydiau, a byddwn yn gofyn i chi aros yn y clinig neu'r ward am 30 munud ar ôl rhoi'r dabled i chi i sicrhau eich bod yn goddef y dabled yn briodol. Gallwch fynd adref ar ôl hynny. Weithiau, gall achosi gwaedu neu golli hylif o'r fagina a chrampiau yn yr abdomen (tebyg i grampiau'r mislif), ac rydym yn eich cynghori i ddefnyddio padiau i fonitro'r gwaedu.

Mewn argyfwng fel gwaedu trwm a phoen ar ôl y dabled gyntaf, gofynnwn i chi gysylltu â'r Uned Asesiadau Gynaecolegol Brys (EGAU) yn Ysbyty'r Faenor os ydych chi'n feichiog ers llai nag 20 wythnos neu â staff brysbennu'r Gwasanaeth Obstetreg os ydych chi'n feichiog ers mwy nag 20 wythnos. Os bydd gwaedu trwm a bydd y padiau'n dirlenwi wedi 30 munud a chyn pen 1 awr a byddwch yn gollwng ceuladau mawr, efallai bydd angen i chi fynd i'r Adran Achosion Brys.

**Yr Ail Ran**

Byddai'r ail dabled (Misoprostol) yn cael ei rhoi yn Ysbyty Prifysgol y Faenor ar ôl eich derbyn yno oherwydd bydd yn achosi poenau yn yr abdomen (tebyg i grebachiadau) ac yn cwblhau'r broses esgor (baban a brych). Gellir rhoi hyd at 5 dos o'r ail dabled, 3 awr ar wahân. Rhoddir y dabled gyntaf drwy'r fagina, a rhoddir y gweddill trwy'r geg.

Dylech gynllunio i dreulio noson neu ddwy yn yr ysbyty.

Bydd y nyrsys/Meddyg/bydwraig sy'n gofalu amdanoch chi a/neu anesthetydd yn trafod yr opsiynau lleddfu poen sydd ar gael i chi.

Os na fydd y beichiogrwydd wedi dirwyn i ben yn llwyr ar ôl 5 dos o Misoprostol, yna, byddech chi'n gorfod gorffwys am 24 awr. Yna, bydd eich meddyg ymgynghorol enwebedig neu feddyg ymgynghorol ar alwad yn trafod dulliau rheoli eraill â chi. Os cawsoch doriad Cesaraidd neu unrhyw lawdriniaeth fawr ar y groth yn flaenorol, efallai y byddwn yn rhoi dos is o'r dabled hon i leihau'r risg o broblemau yn sgil creithiau yn y groth yn dibynnu ar gam eich beichiogrwydd.

Byddwch chi'n cael cynnig cyffuriau lleddfu poen a meddyginiaethau atal cyfog, a gallwch ofyn amdanyn nhw pan fydd eu hangen arnoch. Efallai y byddwch yn cael cwrs o wrthfiotigau, yn dibynnu ar yr amgylchiadau a'r angen clinigol.

Efallai y byddwch yn cael teneuwyr gwaed tra byddwch yn yr ysbyty ar ôl y driniaeth ac yn dibynnu ar eich ffactorau risg (hanes o geuladau gwaed yn y coesau/ysgyfaint naill ai yn eich achos chi neu yn achos perthnasau agos). Efallai y bydd angen i chi gael y pigiadau hyn am ychydig ddyddiau neu wythnosau ar ôl esgor yn dibynnu ar eich ffactorau risg personol.

## Gweithdrefn Ychwanegol os bydd y beichiogrwydd yn >21+6 wythnos

Bydd proses ychwanegol os byddwch chi'n feichiog ers mwyn na 21+6 wythnos ar ddechrau terfynu beichiogrwydd meddygol, ac fel rhan o hynny, rhoddir pigiad i atal curiad calon y baban. Gwneir y driniaeth hon os bydd posibilrwydd sylweddol y bydd eich baban yn amlygu 'arwyddion o fywyd' ar adeg ei eni. Gwneir y driniaeth hon yn Ysbyty Athrofaol Cymru  yng Nghaerdydd yn uned meddygaeth y ffetws cyn i chi ddechrau terfynu beichiogrwydd yn feddygol yn ein hysbyty.

Byddwch yn cael trafodaeth fanwl am y weithdrefn hon pan ddowch i'ch apwyntiad, fel y gallwch wneud penderfyniad sy'n seiliedig ar wybodaeth. Byddwch yn cael pigiad anesthetig lleol yn eich bol i'ch atal rhag teimlo unrhyw boen a defnyddir sgan uwchsain i lywio nodwydd trwy'ch bol ac i mewn i'ch croth i roi pigiad i atal curiad calon y baban. Gwneir sgan uwchsain arall yn ystod yr apwyntiad ar ôl gwneud y weithdrefn hon.

## Risgiau/Cymhlethdodau MTOP

Ni fyddai'r rhan fwyaf o fenywod yn profi unrhyw broblemau; fodd bynnag, ceir risg fach o brofi cymhlethdodau.

Mae'r risgiau mawr yn cynnwys gwaedu difrifol a dargadw meinweoedd beichiogrwydd (gan gynnwys y brych) mewn tua 5-8 achos ym mhob 100.

Efallai bydd angen ymyrraeth lawfeddygol i gael gwared ar y meinwe mewn tua 13 achos ym mhob 100.

Mae'r risg o waedu difrifol yn is yn achos terfynu beichiogrwydd yn gynnar (<20 wythnos), a bydd yn digwydd yn achos llai nag 1 o bob 1000. Yn achos beichiogrwyddau sydd wedi para mwy nag 20 wythnos, bydd yn digwydd yn achos oddeutu 4 o bob 1000.

Mae risgiau eraill yn cynnwys trawma serfigol a thyllu'r groth (yn achos ymyrraeth lawfeddygol yn unig), risg o ddal haint yn achos < 2 o bob 100 a phosibilrwydd o rwygo'r groth yn achos <1 o bob 1000.

Gallai cymhlethdodau yn ystod camau hwyrach beichiogrwydd gynnwys dargadw meinwe beichiogrwydd gan achosi haint yn achos oddeutu 1 o bob 10.

Ceir cynnydd bach hefyd yn y risg o enedigaeth gynamserol ddilynol, a bydd hynny'n cynyddu wrth i nifer y terfyniadau gynyddu.

Ni fydd eich risg o brofi cam-esgor, beichiogrwydd ectopig neu frych isel yn cynyddu ar ôl terfynu beichiogrwydd heb gymhlethdodau.

Baban a enir sy'n amlygu arwyddion bywyd - Mewn rhai achosion, efallai y genir baban sy'n parhau i amlygu arwyddion bywyd. Curiad calon, anadlu, curiadau'r llinyn bogail neu symudiadau pendant y cyhyrau rheoledig yw'r arwyddion hynny. Dan yr amgylchiadau prin pan enir baban sy'n parhau i amlygu arwyddion bywyd yn dilyn terfynu beichiogrwydd yn ystod unrhyw un o gamau'r beichiogrwydd a bydd yn marw wedi hynny, rhaid cofrestru genedigaeth a marwolaeth y baban, a rhoddir y ddwy dystysgrif i'r rhieni.

**Beth sy'n digwydd ar ôl terfynu beichiogrwydd**

**Amser gyda'r baban -** Gall meddyliau am weld neu ddal eich baban fod yn gymysg iawn, ac mae teimlo'n ansicr yn brofiad hollol arferol. Gall fod yn benderfyniad anodd a phersonol iawn, ac mae'n bwysig gwybod y gallwch chi gymryd amser i wneud penderfyniad, ac y gallwch ailfeddwl ar unrhyw adeg. Os dewiswch weld eich baban, gellir trefnu hynny mewn modd tyner a chefnogol. Byddwch yn gallu treulio cyhyd ag y dymunwch â'ch baban. Caiff eich baban ei lapio'n ofalus mewn blanced a'i roi mewn basged Moses, fel y gallwch chi dreulio'r amser hwn gyda'ch gilydd mewn lleoliad heddychlon. Efallai y byddwch chi'n penderfynu enwi eich baban.

**Blwch atgofion:** Rydym yn cynnig blwch atgofion i'ch cynorthwyo yn ystod y cyfnod anodd hwn. Mae'r blwch yn cynnwys dau dedi bêr - un i'w gadw, ac un a all fynd gyda'ch baban wrth drefnu'r angladd, os dymunwch.

Yn y blwch, fe welwch hefyd ddetholiad o eitemau i helpu i anrhydeddu a chofio'ch baban: dyddiadur bychan, llyfr straeon, cwdyn 'organza', ffotograffau meddygol (os gofynnir amdanynt), pecyn rhyddhau yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau cymorth sydd ar gael i rieni, hadau blodau cof ('Forget-me-not') i'w plannu er cof, tystysgrifau coffa. Efallai y cewch gynnig Rhodd Ibraheem hefyd (wedi'i deilwra yn unol â'ch ffydd os bydd hynny'n briodol), pecynnau siblingiaid ar gyfer brodyr a chwiorydd hŷn, blychau atgofion yn y Gymraeg a blychau Sefydliad Skye High ar gyfer teuluoedd sy'n profi colli un efaill neu fwy nag un plentyn. Os gellir, yn dibynnu ar gam y beichiogrwydd, efallai y byddwn hefyd yn gallu cynnig olion dwylo ac olion traed fel atgof parhaol.

**Trefniadau'r angladd:** Ar ôl y driniaeth, byddwch yn cael trafodaeth sensitif â nyrs, bydwraig neu feddyg profiadol am opsiynau trefnu angladd. Nid oes gofyniad

cyfreithiol i gynnal angladd i faban a enir wedi llai na 24 wythnos yn y groth. Gallwch ddewis rhwng amlosgi/claddu preifat, amlosgi wedi'i drefnu gan yr ysbyty (claddu dan rai amgylchiadau yn unig, e.e., yn achos cred grefyddol), neu gladdu gartref - beth bynnag fydd yn teimlo'n briodol i chi. Byddwch yn cael taflenni sy'n cynnig rhagor o wybodaeth. Os byddwch chi'n ansicr, bydd gennych chi hyd at 3 mis ar ôl eich triniaeth i benderfynu.

**Profion pellach:** Efallai yr argymhellir profion genetig, sy'n cynnwys cymryd sampl meinwe fach o'r brych a phrawf gwaed gennych chi. Gellir anfon y brych cyfan i'w archwilio hefyd os ystyrir bod hynny'n ddefnyddiol o safbwynt clinigol. Mewn rhai sefyllfaoedd, efallai y bydd trafodaeth bellach â phatholegydd yn angenrheidiol. Fodd bynnag, efallai y byddant yn penderfynu na fydd angen rhai profion.

I allu cynnal unrhyw brofion, gofynnir i chi lenwi ffurflenni caniatâd a chynnig gwybodaeth am hanes unrhyw feichiogrwydd blaenorol. Rhennir yr holl ganlyniadau â chi cyn gynted ag y byddant ar gael.

Os bydd angen clinigol, gellir cynnig profion pellach, gan gynnwys archwiliad post-mortem. Bydd y penderfyniad hwn yn seiliedig ar angen meddygol, ni argymhellir hynny os byddwch chi wedi cael diagnosis cyn penderfynu terfynu'r beichiogrwydd, ond mae gennych hawl i wrthod unrhyw ymchwiliadau. Byddwch yn cael trafodaeth fanwl â'r tîm meddygol, ac ni chynhelir unrhyw brofion heb eich caniatâd ar sail gwybodaeth.

Byddwch yn cael 'Canllaw ynghylch archwiliad post-mortem ysbyty o ffetws, baban neu blentyn' i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniadau.

Os gwneir post-mortem, bydd eich baban yn aros yn Ysbyty Prifysgol Cymru am oddeutu 3-4 wythnos a bydd angen disgwyl o leiaf 12-14 wythnos am y canlyniadau. Pan fyddant ar gael, trefnir apwyntiad dilynol gyda'ch ymgynghorydd meddygaeth y ffetws.

**Ôl-ofal a rhyddhau:** Bydd y meddyg/nyrs/bydwraig yn cadarnhau eich bod chi'n iawn ac na fyddwch chi'n gwaedu'n drwm. Disgwylir gwaedu o'r fagina am oddeutu dwy neu dair wythnos a gallai'r gwaedu hwnnw fod yn drymach nag yn achos mislif arferol ar y dechrau, ond bydd yn lleihau maes o law. Argymhellir defnyddio padiau misglwyf ac osgoi tamponau oherwydd gallant gynyddu'r risg o ddal haint. Oherwydd y risg o ddal haint, fe'ch cynghorir i beidio ag ailddechrau cael cyfathrach rywiol nes bydd y gwaedu wedi stopio.

Mae'n debygol y byddwch chi'n profi poen ac anesmwythdra yn rhan isaf yr abdomen; byddwch yn gallu cymryd cyffuriau lleddfu poen yn ôl yr angen.

Os yw eich grŵp gwaed yn Rhesws negatif; byddwch yn cael pigiad o feddyginiaeth o'r enw imiwnoglobwlin gwrth-D. Os bydd y gwaedu'n arafu ac ni fydd unrhyw bryderon eraill, gallwch fynd adref yr un diwrnod.

Ni argymhellir gorffwys am unrhyw amser penodol ac nid oes unrhyw gyngor penodol ynghylch pryd ddylech ddychwelyd i'r gwaith, ond byddem yn awgrymu treulio rhywfaint o amser ychwanegol i allu adfer yn gorfforol ac emosiynol. Gallwch

ofyn i'r ysbyty am 'bapur doctor'. Gall eich meddyg teulu hefyd gynnig cymorth ar ôl terfynu beichiogrwydd.

Gallai rhai merched gynhyrchu llaeth (yn enwedig ar ôl 16 wythnos), ac yn yr achos hwnnw, byddwn yn argymell dull atal naturiol fel y dewis cyntaf, ond os dymunwch gael tabledi i'w atal, gallwn gynnig hynny hefyd (cabergoline). Cyn rhoi'r dabled, byddwn yn cael trafodaeth ynghylch eich hanes meddygol i sicrhau ei bod yn ddiogel i chi ac i drafod sgil-effeithiau disgwyliedig y dabled ac am faint ddylech ei chymryd.

**Cymorth yn ystod galar:** Rydym yn deall y bydd hwn yn gyfnod anodd iawn, ac rydym am i chi wybod nad ydych chi ar eich pen eich hun. Rydym ar gael i'ch cynorthwyo pryd bynnag y bydd angen cymorth arnoch. Bydd bydwraig galar yn cysylltu â chi os ydych chi'n feichiog ers mwy na 20 wythnos. Os ydych chi'n feichiog ers llai nag 20 wythnos, bydd nyrs o'r adran gynaecoleg yn cysylltu â chi i gynnig cymorth i ymateb ag unrhyw gwestiynau y gallech eu gofyn neu unrhyw bryderon y bydd gennych. Os hoffech gael rhagor o gymorth, gallwch gyfeirio eich hun at Ganolfan Beresford, sef gwasanaeth cwnsela penodol ar gyfer pobl sydd wedi colli baban. Bydd taflen yn cynnig gwybodaeth am y ganolfan yn eich pecyn rhyddhau. Rydym hefyd yn cydnabod effaith colled ar bartneriaid ac yn cynnig cymorth i ddiwallu eu hanghenion.

**Dilyniant gan Fydwraig Gymunedol:** Pan fyddwch wedi cael eich rhyddhau i fynd adref, bydd eich bydwraig gymunedol yn cysylltu os byddwch wedi cam-esgor ar ôl 20 wythnos, i drefnu ymweliad. Gallwch drafod â'ch bydwraig i bennu a chytuno ar amlder yr ymweliadau hyn.

**Grwpiau Cymorth ac Adnoddau:** Mae llawer o grwpiau cymorth lleol a chenedlaethol yn cynnig cymorth. Byddwn yn rhoi taflen i chi sy'n cynnwys manylion cyswllt a rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau hyn.

**Cyngor ar ôl terfynu beichiogrwydd:**

- Cymerwch brawf beichiogrwydd (wrin) 3 wythnos ar ôl hynny os oeddech chi wedi bod yn feichiog am lai nag 20 wythnos.

- Ceisiwch gymorth yn ddi-oed os byddwch chi'n profi: poen difrifol yn y stumog, gwaedu trwm (1 pad neu 2 yn wlyb socian bob awr), pasio ceuladau gwaed mawr (mwy na maint darn 50c), gollyngiadau sy'n gwynto'n gas neu wres, teimlo'n sâl, arwyddion o thrombosis gwythiennau dwfn, diffyg anadl.

**Atal Cenhedlu Ar ôl Esgor:** Bydd yn bwysig ystyried dulliau atal cenhedlu ar ôl esgor. Bydd angen amser ar eich corff i wella, ac o safbwynt emosiynol, efallai y byddwch chi'n teimlo bod angen mwy o amser arnoch chi cyn ystyried beichiogrwydd arall. Byddwn yn cynnig y bilsen fach yn yr ysbyty cyn eich rhyddhau. Os bydd yn well gennych ddefnyddio unrhyw ddulliau atal cenhedlu eraill, gallwch drafod hynny â'ch meddyg teulu neu mewn clinig iechyd rhywiol.

## Rhifau Cyswllt a Grwpiau Cymorth Pwysig

**Uned Asesiadau Gynaecolegol Brys (EGAU)**
Ysbyty Prifysgol y Faenor, Lefel 3 01633493557/01633493556

**Adran Brysbennu Gwasanaethau Mamolaeth:**
Ysbyty Prifysgol y Faenor, Lefel 3 01633493530

**Canolfan Beresford:**
Mae'n cynnig gwybodaeth a gwasanaeth cwnsela am ddim i'r sawl sy'n profi colli beichiogrwydd wedi unrhyw gyfnod
01633212320
www.centreberesford.og.uk

**Grŵp Cymorth BIP Aneurin Bevan i bobl sydd wedi Colli Baban:**
Ail ddydd Llun bob mis rhwng 7 a 9 pm
Lolfa Carro (i fyny'r grisiau), Sgwâr Gwent, Cwmbrân, NP44 1PL
abb.bereavemntmidwives@wales.nhs.uk

**ARC (Antenatal Results Choices):**
Gall yr elusen hon eich cynorthwyo os cawsoch ganlyniad sgan sy'n dangos nad yw'ch baban yn datblygu yn ôl y disgwyl.
02077137486 (llinell gymorth) a 07908683004 (negeseuon testun) neu www.arc-uk.org

**Aching Arms:**
Gall yr elusen hon eich helpu os byddwch chi wedi profi galar yn sgil colli'ch baban, yn ystod beichiogrwydd, ar adeg yr enedigaeth neu'n fuan wedyn. 07464 508994 a support@achingarms.co.uk

**Y Gymdeithas Camesgor (Miscarriage Association):**
Os yw cam-esgor, beichiogrwydd molar neu feichiogrwydd ectopig wedi effeithio arnoch chi, mae’r wefan hon yn cynnig y wybodaeth a'r cymorth rydych yn eu ceisio. 01924 200799 ac info@miscarriageassociation.org.uk

**The Twin Trust:**
Mae'n cynnig cymorth i unrhyw un sy'n rhiant i efeilliaid neu dripledi (neu nifer fwy o fabanod) sydd wedi marw, naill ai yn ystod neu ar ôl beichiogrwydd. Gallwch gysylltu â hwy trwy droi at Twintrust.org

**Ymdopi â cholled: GIG Cymru**
Mae gwybodaeth ar gael mewn sawl iaith
https://abbhealthiertogether.cymru.nhs.uk › coping-loss

Cyfeirnod y Darlun Meddygol: M25_00624

**Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /**
**This document is available in English.**